Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Dan gyfyngiadau pan fydd yn gyflawn

Cais i ddatgelu data personol o dan Atodlen 2(2)(1) neu Atodlen 2(5)(2) o Ddeddf Diogelu Data 2018

Ni fydd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Morgannwg yn datgelu data personol oni chaniateir iddo wneud hynny o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Nod y ffurflen hon yw sicrhau bod eich cais yn glir ac y nodir y sail gyfreithiol dros ddatgelu. Er bod hawl gennych i wneud cais, **nid yw hyn, fodd bynnag, yn gwarantu y byddwn yn datgelu'r data yr ydych wedi gwneud cais amdano.** Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y gyfraith.

Eich manylion:

Enw:	
Swydd:	
Sefydliad:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad post:	

Gwybodaeth y gofynnir amdani:

Beth yw enw(au) llawn y testun(au) data – yr unigolyn / unigolion yr ydych yn gwneud cais am ei ddata / eu data personol?	
Nodwch unrhyw wybodaeth bersonol arall sy'n berthnasol er mwyn caniatáu adnabod y testun(au) data – *er enghraifft:* *Cyfeiriad;* *Rhif M (Iechyd)* *Dyddiad geni;* *Rhif Yswiriant Gwladol.*	

Pa ddata ydych chi'n gofyn amdano yn benodol?	
Pa ddyddiad(au) neu gyfnod(au) ydy'r cais hwn yn ymwneud â hwy?	
Os yw'n bosibl, nodwch ba faes / feysydd neu wasanaeth(au) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n debygol o feddu ar yr wybodaeth hon	

Trosedd a threth

Mae Atodlen 2(2)(1) yn ein caniatáu i ddatgelu data personol at unrhyw rai o'r dibenion (a restrir isod), pan allai hysbysu'r testun(au) data niweidio ymchwiliad.

A oes angen y data arnoch er mwyn atal a chanfod trosedd?	Hoffwn/Na hoffwn
A oes angen y data arnoch er mwyn dal neu erlyn troseddwr?	Hoffwn/Na hoffwn
A oes angen y data arnoch er mwyn asesu neu gasglu treth neu doll?	Hoffwn/Na hoffwn
Os ydych wedi ateb 'oes', ydych chi wedi ystyried cydsyniad yr unigolyn / unigolion? Os nad ydych, nodwch sut gallai hysbysu'r testun data ynglŷn â ffynhonnell y data personol niweidio eich ymchwiliad.	
Os ydych yn gwneud cais am y data hwn er mwyn casglu treth neu doll, nodwch ba dreth neu doll y mae'r cais yn ymwneud â hi.	

Deddfau, deddfiadau a gorchmynion llys

Mae Atodlen 2(5)(2) yn ein caniatáu i ddatgelu data personol pan fydd deddfiad, rheol gyfreithiol neu orchymyn llys neu orchymyn tribiwnlys yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r data, i'r graddau y byddai cymhwyso'r darpariaethau hynny yn atal y rheolydd rhag cyflwyno'r datgeliad.

Ydych chi'n gofyn am y data gan fod Deddf, Deddfiad neu Orchymyn Llys yn ei gwneud yn ofynnol i chi feddu ar yr wybodaeth?	Hoffwn/Na hoffwn
Os felly, nodwch ba Ddeddf neu Ddeddfiad yn ogystal â rhif yr Adran berthnasol. Yn achos Gorchymyn Llys, anfonwch gopi o'r Gorchymyn.	

Achosion cyfreithiol

Mae Atodlen 2(5)(3) yn ein caniatáu i ddatgelu data personol, pan fydd angen, sy'n gysylltiedig ag achosion cyfreithiol cyfredol neu ddarpar achosion cyfreithiol, er mwyn cael cyngor cyfreithiol neu i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol.

A oes angen y data arnoch at ddibenion, neu yn gysylltiedig ag, achosion cyfreithiol (gan gynnwys darpar achosion cyfreithiol)?	Hoffwn/Na hoffwn
A oes angen y data arnoch er mwyn cael cyngor cyfreithiol?	Hoffwn/Na hoffwn
A oes angen y data arnoch er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol?	Hoffwn/Na hoffwn
Os ydych wedi ateb 'oes', rhowch eglurhad pellach a nodwch pam mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu'r data personol.	

Datganiad

Dylid trin y data hwn yn gyfrinachol ac ni ddylid ei ddatgelu o dan unrhyw amgylchiadau.

Cadarnhaf fod angen y data personol y gofynnir amdano at y diben hwnnw / dibenion hynny, ac y bydd methu â darparu'r wybodaeth, yn fy marn i, yn debygol o niweidio'r diben hwnnw / dibenion hynny.

Deallaf y gallwn fod yn cyflawni trosedd o dan Adran 170(1) o Ddeddf Diogelu Data 2018 os bydd unrhyw wybodaeth ar y ffurflen wedi ei hepgor neu yn anghywir.

Llofnod ---------- Rôl ----------

Enw ---------- Dyddiad ----------

Cydlofnod ---------- Rôl ----------

Enw ---------- Dyddiad ----------

Os bydd angen unrhyw gyngor neu arweiniad wrth gwblhau'r cais hwn, cysylltwch â'r:

Adran Llywodraethu Gwybodaeth	**Amddiffyn / Diogelu'r Cyhoedd**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Tŷ Ynysmeurig Parc Hen Lofa'r Navigation Abercynon CF45 4SN	
Rhif ffôn: 01443 744800	
	Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) 01443 742949
E-bost: informationgovernancedepartment@wales.nhs.uk	E-bost: CTHB_SafeguardingTeam@wales.nhs.uk